# Dull Cyfrifo Ôl-troed Carbon

## Cyfarwyddiadau

DEFNYDDIA'R DULL CYFRIFO YMA I GANFOD FAINT O EGNI RWYT TI'N EI DDEFNYDDIO GARTREF AC I GYFRIFO DY ÔL-TROED CARBON Y FLWYDDYN. DARLLENA'R CWESTIYNAU ISOD A RHOI TIC WRTH YMYL YR ATEB SYDD FWYAF ADDAS I TI. YNA CYFRA FAINT O BOB LLIW SYDD GEN TI A GWIRIO DY GYFANSWM YN ERBYN YR ADRAN ATEBION ISOD.

GWYRDD AMBR COCH

## Cwestiynau

**PA FATH O FWYD WYT TI'N BWYTA FWYAF?**
a) Bwyd cartref
b) Bwyd tecawê, prydau parod neu fwyd mewn bwyty

**SUT BYDDET TI'N DISGRIFIO ORAU YR HYN RWYT TI'N EI FWYTA?**
a) Llysiau a ffrwythau yn bennaf
b) Rydw i'n bwyta cig ym mhob pryd bron iawn

**PAN FYDDI DI'N GADAEL YSTAFELL WYT TI...**
a) Yn diffodd y goleuadau?
b) Yn eu gadael ymlaen ar gyfer wedyn?

**SUT WYT TI'N GADAEL Y TELEDU PAN NAD WYT TI'N EI WYLIO?**
a) Rydw i'n ei adael ymlaen
b) Rydw i'n ei ddiffodd
c) Rydw i'n ei adael ar y golau coch (standby)

**WYT TI'N DIFFODD DY SYSTEM GEMAU FIDEO PAN NAD WYT TI'N EI CHWARAE?**
a) Ydw
b) Nac ydw
c) Does gen i ddim un

**SUT BYDD DY DDILLAD YN CAEL EU SYCHU AR ÔL IDDYN NHW GAEL EU GOLCHI?**
a) Maen nhw'n cael eu hongian i fyny
b) Mewn peiriant sychu dillad
c) Y ddwy ffordd uchod

**PAN FYDDI DI WEDI GORFFEN DEFNYDDIO OFFER GWEFRU A THECLYNNAU TRYDANOL ERAILL WYT TI...**
a) Yn eu gadael wedi'u plygio i mewn?
b) Yn eu datgysylltu neu'n eu diffodd yn y wal?

**PAN FYDDI DI'N BRWSIO DY DDANNEDD FYDDI DI...**
a) Yn diffodd y tap?
b) Yn gadael y tap i redeg?

**SUT WYT TI FEL ARFER YN MYND I'R YSGOL?**
a) Ar fy meic neu drwy gerdded
b) Mae rhywun yn fy ngyrru yno
c) Dal y bws
d) Rhannu lifft gyda ffrind

**WYT TI WEDI HEDFAN MEWN AWYREN ELENI?**
a) Do, i rywle yn Ewrop (fel Ffrainc neu Sbaen)
b) Do, i rywle y tu allan i Ewrop (fel Florida yn UDA)
C) Naddo

**WYT TI'N AILGYLCHU CYLCHGRONAU A PHAPURAU NEWYDD, GWYDR, PLASTIG A THUNIAU?**
a) Ydw, pob un ohonyn nhw
b) Rhai ohonyn nhw
c) Dim un ohonyn nhw

## Atebion

**Y RHAN FWYAF YN WYRDD?** – Ôl-troed carbon isel – rwyt i'n wyrdd iawn! (1-3 tunnell) (Yr atebion gwyrdd yw'r rhai sy'n defnyddio ychydig o egni)

**Y RHAN FWYAF YN AMBR?** – Ddim yn ddrwg, mae gen ti rai arferion egni da ond mae gen ti le i wella yn sicr! (3-7 tunnell) (Mae ambr yn golygu dy fod yn defnyddio mwy o egni)

**Y RHAN FWYAF YN GOCH?** O diar! Mae dy ôl-troed yn fawr! (7+) (Yr atebion coch yw'r rhai sy'n defnyddio llawer iawn o egni)

**MAE'R PERSON CYFFREDIN YN Y DU YN DEFNYDDIO 6.5 TUNNELL O $CO_2$ Y FLWYDDYN.**

**FAINT O EGNI WYT TI'N EI DDEFNYDDIO O'I GYMHARU Â PHOBL ERAILL, YN DY FARN DI?**

